# Cyrsiau Cymraeg Camau

Cyhoeddwyd gyntaf: 9 October 2024

Diweddariad olaf: 10 October 2024

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/draft-using-welsh-at-work/camau-welsh-language-course am y fersiwn diweddaraf.

Gall gweithwyr gofal cymdeithasol yng Nghymru nawr ddysgu Cymraeg am ddim, diolch i gwrs ar-lein Camau.

Rydyn ni wedi creu’r cwrs Camau mewn partneriaeth â’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, yn arbennig ar gyfer bobl sy’n gweithio o fewn gofal cymdeithasol.

Mae’n cynnig dysgu hyblyg drwy gyrsiau byr sy’n canolbwyntio ar y geiriau a thermau y mae gweithwyr eu hangen fwyaf wrth gyfathrebu gyda’r bobl maen nhw’n eu cefnogi.

Mae’n cyfrif tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus gweithwyr gofal cymdeithasol a bydd pawb sy’n cwblhau’r cwrs yn cael tystysgrif.

Mae yna ddau gwrs ar gael:

- Mae'r modiwl **Mynediad** yn addas i ddechreuwyr ac mae wedi rannu yn dair rhan o rhyw 20 awr o hunan astudio i bob rhan.
- Mae’r modiwl **Sylfaen** yn adeiladu ar y modiwl lefel Mynediad ac mae wedi rannu yn dair rhan o rhyw 20 awr o hunan astudio i bob rhan.

Cofrestru ar gyfer y cwrs Mynediad

Gallwch gofrestru ar gyfer y cwrs Mynediad drwy wefan Dysgu Cymraeg.

Mae dau gwrs ar gael, yn defnyddio tafodiaith y gogledd neu’r de.

Unwaith y byddwch wedi creu cyfrif gallwch gychwyn y cwrs yn syth trwy fynd i ‘**Fy Nysgu’** o fewn eich cyfrif ar dysgucymraeg.cymru.

## Cofrestrwch ar gyfer:

- cwrs tafodiaith gogledd Cymru
- cwrs tafodiaith de Cymru.

Cofrestru ar gyfer y cwrs Sylfaen

Gallwch gofrestru ar gyfer y cwrs Sylfaen drwy wefan Dysgu Cymraeg.

Mae dau gwrs ar gael, yn defnyddio tafodiaith y gogledd neu'r de.

Unwaith y byddwch wedi creu cyfrif gallwch gychwyn y cwrs yn syth trwy fynd i 'Fy Nysgu' o fewn eich cyfrif ar dysgucymraeg.cymru.

**Cofrestrwch** ar gyfer:

- cwrs Sylfaen tafodiaith gogledd Cymru
- cwrs Sylfaen tafodiaith de Cymru.

## Ymuno â chymuned Camau

Rydyn ni hefyd wedi creu cymuned arlein sy'n ofod i ddysgwyr ymgysylltu â'i gilydd a rhannu eu profiadau am yr iaith Gymraeg.

Gallwch drafod sut yr ydych yn mwynhau'r cwrs a chefnogi eich gilydd tra'n rhannu yr hyn yr ydych wedi ei ddysgu i fagu hyder.

Ymunwch â'r gymuned yma.